**Fis Hydref mae'n Fis Bwyd Ysgol – Ie Plîs!**
**O ddydd Llun 2 Hydref hyd ddydd Gwener 27 Hydref**

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Rydym am rannu newyddion cyffrous gyda chi. Fis Hydref 2023 mae'n 'Fis Bwyd Ysgol – Ie Plîs!' yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân.

**Beth yw Mis Bwyd Ysgol – Ie Plîs! a pham yr ydych yn ei gynnal?**
Mae Cymru yn arwain y Deyrnas Unedig wrth estyn cinio ysgol am ddim allan i bob plentyn ysgol gynradd, ac mae hyn bellach yn cynnwys pob disgybl yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân. O ddydd Llun 2 Hydref hyd ddydd Gwener 27 Hydref, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Nesta, sef elusen sy'n cefnogi syniadau newydd sy'n gwella bywydau pobl, er mwyn annog ein holl ddisgyblion i fwynhau eu prydau ysgol am ddim bob dydd. Credwn y gallai'r fenter hon gael effaith gadarnhaol ar lesiant ein plant, a'u haddysg, ac arbed amser ac arian i deuluoedd ar yr un pryd.

Rydyn ni'n rhan o grŵp o ysgolion yn Nhorfaen sy'n cymryd rhan yn ymgyrch 'Mis Bwyd Ysgol – Ie Plîs!. Mae yna gynlluniau i ehangu'r fenter hon i rannau eraill o Gymru yn y flwyddyn newydd, ac felly wrth i chi gymryd rhan yn yr ymchwil hwn bydd holl blant Cymru ar eu hennill.

**Beth sydd eisiau i mi ei wneud?**
**Os nad ydych yn dweud unrhyw beth i'r gwrthwyneb, byddwn yn cymryd bod eich plentyn yn cymryd rhan yn y fenter hon ac yn bwyta pryd ysgol bob dydd o ddydd Llun 2 Hydref hyd ddydd Gwener 27 Hydref.**

**Gan fod prydau ysgol am ddim i bob plentyn yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân ni fydd unrhyw gost a bydd eich plentyn yn cael ei gofrestru'n awtomatig.**

Er ein bod yn deall y gallai fod gan rai plant bryderon ynghylch blasu bwydydd newydd, neu y byddai'n well ganddynt fynd â'u pecyn bwyd eu hunain i'r ysgol, yn ôl yr ymchwil mae cofleidio profiadau newydd gyda'n gilydd yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Bob diwrnod mae yna ddewis o dri phryd ar y fwydlen a bydd eich plentyn yn gallu dewis y pryd sydd orau ganddynt.

Ar gyfer y plant hynny sydd ag alergeddau neu ofynion dietegol arbennig, mae dietegydd arbenigol y cyngor yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Os oes gan eich plentyn anghenion dietegol unigryw nad ydym yn gwybod amdanynt eto, a wnewch chi roi gwybod i ni erbyn **22 Medi?** Gallwch anfon neges e-bost i CBST – Cais Diet Arbennig specialdietrequest@torfaen.gov.uk neu ffonio'r swyddfa arlwyo ar 01633 647715**.**

Byddwn yn esbonio'r fenter i'r plant yn ystod gwasanaeth arbennig. Buaswn yn hynod werthfawrogol petaech yn gallu ein cefnogi trwy drafod hyn gyda'ch plentyn a thawelu meddwl eich plentyn mai dim ond am un mis fydd hyn a bod pob un yn cymryd rhan. **Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gymryd rhan, anfonwch e-bost i CBST – Ymholiadau Arlwyo CateringEnquiries@torfaen.gov.uk neu ffoniwch y swyddfa arlwyo ar 01633 647715.**

Gan mai prosiect ymchwil yw hwn, bydd Nesta yn casglu adborth gan deuluoedd ar ddiwedd y fenter trwy holiadur i rieni a chyfweliadau gyda grwpiau bach. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn y man, felly byddwch ar eich gwyliadwriaeth oherwydd bydd eich adborth yn werthfawr iawn.

Diolch i chi am gefnogi'r fenter gyffrous hon ac am gymryd rhan ynddi.